OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 196 (Cy.15)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd) (Cymru) 2007

Wedi'u gwneud	- -	*30 Ionawr 2007*
Yn dod i rym	- -	*31 Ionawr 2007*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd (yn ddarostyngedig i eithriadau penodol) a mesurau ym maes milfeddygaeth i ddiogelu iechyd y cyhoedd.

Mae wedi cynnal ymgynghoriad yn unol ag Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**3**), fel y diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 575/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor(**4**).

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972:

RHAN 1

Cyffredinol

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd) (Cymru) 2007.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 31 Ionawr 2007.

(**1**) OS 2005/2766 mewn perthynas â'r polisi amaethyddol cyffredin (yn ddarostyngedig i eithriadau penodol), ac OS 2003/1246 mewn perthynas â mesurau milfeddygol i ddiogelu iechyd y cyhoedd.
(**2**) 1972 p. 68.
(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1.
(**4**) OJ Rhif L100, 8.4.2006, t. 3.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "arolygydd" ("*inspector*"), mewn perthynas ag unrhyw ddarn o ddeddfwriaeth berthnasol, yw arolygydd, arolygydd milfeddygol, neu swyddog arall a awdurdodir gan y Cynulliad Cenedlaethol neu awdurdod arall i weithredu yng Nghymru o dan y ddeddfwriaeth berthnasol honno;

mae i "yr awdurdod bwyd", mewn perthynas ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol y gwneir dynodiad ar ei chyfer o dan y Rheoliadau hyn, yr un ystyr â "*the food authority*" yn y ddeddfwriaeth berthnasol honno;

mae i "yr awdurdod lleol", mewn perthynas ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol y gwneir dynodiad ar ei chyfer o dan y Rheoliadau hyn, yr un ystyr â "*the local authority*" yn y ddeddfwriaeth berthnasol honno;

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

mae i "deddfwriaeth berthnasol" ("*relevant legislation*") yr ystyr a roddir ym mharagraff (3);

ystyr "mangre" ("*premises*") yw mangre neu eiddo arall, lle neu gyfrwng cludo;

ystyr "Rheoliad 882/2004" ("*Regulation 882/2004*") yw Rheoliad (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gyflawnir i sicrhau cydymffurfedd â chyfraith bwyd anifeiliaid a chyfraith bwyd, rheolau iechyd a lles anifeiliaid(**5**), fel y diwygiwyd y Rheoliad hwnnw gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 776/2006 yn diwygio Atodiad VII o ran labordai cyfeirio'r Gymuned(**6**) ac fel y'i darllenir gyda'r canlynol—

(a) Penderfyniad y Comisiwn 2006/677 yn nodi'r canllawiau sy'n gosod meini prawf ar gyfer cynnal archwiliadau o dan Reoliad (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol i wirio cydymffurfedd â chyfraith bwyd anifeiliaid a chyfraith bwyd, rheolau iechyd anifeiliaid a rheolau lles anifeiliaid(**7**);

(b) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2074/2005 sy'n gosod mesurau gweithredu ar gyfer cynhyrchion penodol o dan Reoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ac ar gyfer trefnu rheolaethau swyddogol o dan Reoliad (EC) Rhif 854/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor a Rheoliad (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n rhanddirymu Rheoliad (EC) Rhif 852/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ac yn diwygio Rheoliadau (EC) Rhif 853/2004 ac (EC) Rhif 854/2004(**8**);

(c) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2076/2005 yn gosod trefniadau trosiannol ar gyfer gweithredu Rheoliadau (EC) Rhif 853/2004, (EC) Rhif 854/2004, ac (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ac yn diwygio Rheoliadau (EC) Rhif 853/2004 ac (EC) Rhif 854/2004(**9**); ac

(ch) Rheoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd fel y diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 575/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor;

ystyr "Rheoliadau 2006" ("*the 2006 Regulations*") yw Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2006(**10**).

(**5**) OJ Rhif L165, 30.4.2004, t.1; *gweler* y testun sydd wedi'i gywiro yn y corigendwm i'r Rheoliad a gyhoeddwyd yn OJ Rhif L 191, 28.5.2004, t. 1.
(**6**) OJ Rhif L136, 24.5.2006, t. 3.
(**7**) OJ Rhif L278, 10.10.2006, t.15.
(**8**) OJ Rhif L338, 22.12.2005, t. 27.
(**9**) OJ Rhif L338, 22.12.2005, t. 83.
(**10**) OS 2006/590 (Cy.66) fel y'i diwygiwyd gan OS 2006/1704 (Cy.166), rheoliad 1(3).

(2) Yn y Rheoliadau hyn—

(a) ystyr "archwiliad" ("*audit*"), ac eithrio yn rheoliad 10, yw archwiliad awdurdod cymwys a gyflawnir at ddibenion Erthygl 4.6 o Reoliad 882/2004 mewn perthynas ag un darn o ddeddfwriaeth berthnasol neu fwy ohonynt; a

(b) ystyr "archwilydd" ("*auditor*") yw person sy'n cynnal archwiliad o'r fath.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "deddfwriaeth berthnasol" ("*relevant legislation*") yw cyfraith bwyd anifeiliaid a chyfraith bwyd y mae Rheoliad 882/2004 yn gymwys iddynt a rheolau iechyd a lles anifeiliaid, ac eithrio—

(a) "cyfraith bwyd anifeiliaid berthnasol" ("*relevant feed law*") a "cyfraith bwyd berthnasol" ("*relevant food law*") fel y'u diffinnir yn Rheoliadau 2006; a

(b) Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol 2006(**11**) i'r graddau y maent yn rheoleiddio ychwanegion sootechnegol a bwydydd anifeiliaid â meddyginiaeth.

(4) Ym mharagraff (3)(b)—

mae i "bwydydd anifeiliaid â meddyginiaeth" yr ystyr a roddir i "*medicated feedingstuffs*" yn Erthygl 1.6 o Gyfarwyddeb 2001/82/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar god y Gymuned sy'n ymwneud â chynhyrchion meddyginiaethol milfeddygol(**12**) fel y diwygiwyd y Gyfarwyddeb honno gan Gyfarwyddeb 2004/28/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n diwygio Cyfarwyddeb 2001/82/EC ar god y Gymuned ynghylch cynhyrchion meddyginiaethol milfeddygol(**13**); ac

ystyr "ychwanegion sootechnegol" ("*zootechnical additives*") yw ychwanegion bwyd anifeiliaid yn y categorïau a grybwyllir yn Erthygl 6.1(d) ac (e) o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1831/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ychwanegion i'w defnyddio i roi maeth i anifeiliaid(**14**) ac eithrio'r rhai sy'n perthyn i'r grŵp swyddogaethol a restrir ym mharagraff 4(a), (b) ac (c) o Atodiad 1 i'r Rheoliad hwnnw.

(5) Oni ddarperir fel arall yn y rheoliad hwn, mae i dermau a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn yr un ystyr ag a roddir i'r ymadroddion Saesneg cyfatebol yn Rheoliad 882/2004.

(6) Oni fynnir fel arall gan y cyd-destun, mae cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at "Erthygl" ("*Article*") neu "Teitl" ("*Title*") yn gyfeiriadau at Erthygl neu Deitl, yn ôl eu trefn, o Reoliad 882/2004.

(7) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at offeryn Cymunedol yn gyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y'i diwygir o dro i dro.

RHAN 2

Dynodi awdurdodau cymwys a chyfnewid gwybodaeth rhyngddynt

Dibenion y dynodiadau

3. Mae dynodiadau yn y Rhan hon yn cael eu gwneud at ddibenion Erthygl 4.1.

Dynodi'r Cynulliad Cenedlaethol yn awdurdod cymwys

4. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi'i ddynodi'n awdurdod cymwys mewn perthynas â deddfwriaeth berthnasol.

(**11**) OS 2006/2407.
(**12**) OJ Rhif L311, 28.11.2001, t. 1.
(**13**) OJ Rhif L136, 30.4.2004, t. 58.
(**14**) OJ Rhif L268, 18.10.2003, t. 29.

Dynodi awdurdodau lleol, etc., yn awdurdodau cymwys

5.—(1) Mae'r awdurdod lleol wedi'i ddynodi'n awdurdod cymwys mewn perthynas â swyddogaethau gorfodi a gweithredu (ac eithrio erlyn) y mae'n eu harfer o dan ddeddfwriaeth berthnasol.

(2) Mae'r awdurdod bwyd wedi'i ddynodi'n awdurdod cymwys mewn perthynas â swyddogaethau gorfodi a gweithredu (ac eithrio erlyn) y mae'n eu harfer o dan ddeddfwriaeth berthnasol.

(3) Yn y rheoliad hwn, mae "yr awdurdod lleol" ac "yr awdurdod bwyd" yn cynnwys awdurdod lleol neu awdurdod bwyd sy'n arfer ei swyddogaethau, sef y rhai y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff (1) neu (2) fel "awdurdod gorfodi" o dan ddeddfwriaeth berthnasol ac o fewn ystyr "*enforcement authority*" mewn deddfwriaeth o'r fath.

Cyfnewid gwybodaeth

6. Caiff awdurdodau cymwys a ddynodir o dan y Rheoliadau hyn ddatgelu gwybodaeth i'w gilydd ac i awdurdodau cymwys eraill yn y Deyrnas Unedig ac i Aelod-wladwriaethau eraill at ddibenion Rheoliad 882/2004.

RHAN 3

Archwiliadau a rheolaethau'r Gymuned

Pwerau archwilwyr ac eithriad ar gyfer archwilwyr yr Asiantaeth Safonau Bwyd

7.—(1) Caiff archwilydd arfer y pwerau yn y rheoliad hwn os yw wedi'i awdurdodi—

(a) gan awdurdod cymwys a ddynodir o dan y Rheoliadau hyn i gynnal archwiliad o weithgareddau'r awdurdod hwnnw; neu

(b) gan y Cynulliad Cenedlaethol i gynnal archwiliad yn unol â rheoliad 8(3).

(2) At ddibenion cynnal archwiliad, caiff archwilydd fynd i mewn i fangre y mae gan arolygydd bŵer i fynd iddo o dan ddeddfwriaeth berthnasol ("mangre archwilio") fel petai'r archwilydd yn arolygydd sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer sicrhau mynediad o'r fath o dan y ddeddfwriaeth berthnasol honno.

(3) Caiff archwilydd sy'n arfer ei bŵer mynediad ddod ag unrhyw berson gydag ef y mae ar yr archwilydd angen rhesymol am ei gymorth.

(4) Caiff archwilydd ofyn i unrhyw berson yn unrhyw fangre archwilio am unrhyw wybodaeth y mae arno angen rhesymol amdani at ddibenion yr archwiliad, a chaiff arolygu unrhyw gofnodion y mae arno angen rhesymol amdanynt at y dibenion hynny.

(5) Caiff archwilydd wneud copïau o'r cofnodion hynny neu ei gwneud yn ofynnol i'r copïau gael eu gwneud.

(6) Wrth arfer y pwerau a roddwyd gan y rheoliad hwn, rhaid i archwilydd, os gofynnir iddo wneud hynny, ddangos tystiolaeth ei fod wedi'i awdurdodi o dan y Rheoliadau hyn.

(7) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo rheoliad 9 yn gymwys.

Pwerau'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas ag archwiliadau awdurdodau lleol, etc.

8.—(1) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cymwys a ddynodir o dan reoliad 5 ddarparu gwybodaeth iddo am unrhyw archwiliadau y mae'r awdurdod cymwys hwnnw wedi'u cynnal neu wedi'u cael neu y mae'r awdurdod cymwys hwnnw yn bwriadu eu cynnal neu eu cael.

(2) Pan fo'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu o dan baragraff (1), rhaid iddo wneud hynny'n ysgrifenedig a rhaid iddo nodi o fewn pa derfyn amser y mae'r wybodaeth sy'n ofynnol i gael ei darparu.

(3) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol ei gwneud yn ofynnol—

(a) i archwilydd gynnal archwiliad o awdurdod cymwys a ddynodir o dan reoliad 5; a

(b) i'r awdurdod cymwys sydd o dan sylw roi unrhyw gymorth i'r archwilydd hwnnw y bydd ar yr archwilydd angen rhesymol amdano er mwyn cynnal yr archwiliad.

Pwerau'r Asiantaeth Safonau Bwyd sy'n ymgymryd ag archwiliadau ar ran y Cynulliad Cenedlaethol

9.—(1) Pan fo'r Cynulliad Cenedlaethol yn trefnu bod yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn ymgymryd ag archwiliad mewn perthynas â deddfwriaeth berthnasol, bydd darpariaethau archwilio Rheoliadau 2006 yn gymwys fel petai—

(a) ymgymryd â'r archwiliad hwnnw yn ddiben a ddisgrifir yn rheoliad 8(1) a 9(1) o Reoliadau 2006; a

(b) yr awdurdod cymwys o dan sylw yn awdurdod gorfodi y mae rheoliadau 8 a 9 o Reoliadau 2006 yn gymwys iddo.

(2) Dyma ddarpariaethau archwilio Rheoliadau 2006—

(a) rheoliadau 8 a 9(1) i (8) a (10), fel y'i darllenir gyda rheoliad 10; a

(b) rheoliad 11.

(3) Mae rheoliadau 17(2), (4) a (5)(c), 18(2) i (9), 19 i 21, 41 i 43, 45 a 46 o Reoliadau 2006 yn gymwys pan fo paragraff (1) o'r rheoliad hwn yn gymwys fel petai'r paragraff hwnnw'n un o ddarpariaethau Rheoliadau 2006 a oedd i'w gorfodi neu i'w gweithredu o dan Reoliadau 2006.

Rheolaethau'r Gymuned

10. I'r graddau nad oes gan arolygydd bwerau eisoes i wneud hynny, er mwyn ei gwneud yn hwylus i archwiliadau gael eu cynnal gan arbenigwyr y Comisiwn yn unol ag Erthygl 45, caiff arolygydd fynd i unrhyw fangre y mae ganddo bŵer i gael mynediad iddo o dan ddeddfwriaeth berthnasol, ac—

(a) dod ag unrhyw arbenigwyr o'r fath gydag ef; a

(b) dangos iddynt y cofnodion y mae'n eu harolygu.

RHAN 4

Cymorth a chydweithrediad o dan Deitl IV

Dyletswyddau awdurdodau lleol, etc, o dan Deitl IV

11. Rhaid i awdurdod lleol neu awdurdod bwyd sydd wedi'i ddynodi'n awdurdod cymwys o dan reoliad 5 hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol os yw'n credu nad yw'n gallu cymryd camau sy'n ofynnol mewn unrhyw achos unigol o dan Deitl IV (cymorth a chydweithrediad gweinyddol ym meysydd bwyd anifeiliaid a bwyd) a rhaid iddo ddarparu i'r Cynulliad Cenedlaethol unrhyw wybodaeth y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn gofyn yn rhesymol amdano.